# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 20/02/13

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorydd E. Selwyn Griffiths - Cadeirydd**
**Y Cynghorydd Gareth Thomas – Is-gadeirydd**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Tom Ellis, Huw Edwards, Jean Forsyth, Louise Hughes

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Mr Cynrig Hughes (Yr Annibynwyr), Eirian Bradley Roberts, (Yr Eglwys Gatholig) a'r Parchedig Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru).

**Aelod Cyfetholedig:** Mr Rheinallt Thomas

**Athrawon:** Mrs Alwen Watkins (ASCL), Mr Noel Dyer, (UCAC), a Mrs Miriam Amlyn (NAS/UWT)

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Miss Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. John Brynmor Hughes, Parchedig Deian Evans (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru).

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Noel Dyer.

**2. DIOLCH**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-gadeirydd am ei barodrwydd i gadeirio'r cyfarfod diwethaf ar 24 Hydref, 2012 pan oedd ef yn absennol oherwydd gwaeledd.
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Huw Edwards a oedd wedi dioddef cyfnod o waeledd.
Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y gefnogaeth a dderbyniodd pan oedd yn mynd drwy gyfnod o waeledd a nododd fod hyn yn tanlinellu gwerth cyfeillgarwch.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Hydref, 2012 fel rhai cywir.

## 5. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

Tywysodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG yr Aelodau drwy'r hunan arfarniadau isod gan nodi bod 7 ysgol wedi ymateb i'w gais i gyflwyno hunan arfarniadau yn dilyn arolygiadau diweddar.

i) Ysgol Abercaseg

Ysgol Babanod ym Methesda yw'r ysgol uchod a nodwyd ei bod wedi derbyn arolygiad rhagorol. Cyfeiriwyd yn benodol at y ffaith bod yr ysgol wedi derbyn 'rhagorol' yng nghyswllt pob Cwestiwn Allweddol.
Nodwyd bod y safon yma yn eithaf unigryw, ac ychwanegodd y swyddog bod y Prif Arolygydd wedi datgan fod hon yn un o'r ysgolion gorau iddo ei harolygu erioed.

Mewn perthynas â Chwestiwn Allweddol 1, nodwyd bod datblygiad ysbrydol, personol, cymdeithasol a moesol yn rhagorol.

O safbwynt Addoli ar y Cyd, nodwyd bod yr ysgol yn rhoi gwasanaeth rhagorol ar gyfer y disgyblion.

Ychwanegodd y swyddog bod yr Awdurdod yn hynod falch o lwyddiant yr ysgol. Yn ogystal, 'roedd Estyn yn falch o'r safonau, ac yn sgil hyn gwahoddwyd yr ysgol i gynnig 3 astudiaeth achos gaiff eu defnyddio gan Awdurdodau ac mewn ysgolion eraill ym mhob rhan o Gymru.

Esboniodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod gofynion Addysg Grefyddol yn wahanol ar gyfer plant yn y cyfnod sylfaen a'i fod yn cael ei adnabod fel 'Pobl Cwestiynau a Chredoau.'

Pwysleisiodd aelodau eu bod yn falch o glywed am ganlyniadau neilltuol yr ysgol.

ii) Ysgol Abererch

Ysgol fechan wledig yw'r ysgol uchod gyda Phennaeth gweddol ddibrofiad yno.

Mewn perthynas â Chwestiwn Allweddol 1, 'roedd y Pennaeth yn nodi y byddai cael arteffactau go iawn, (yn hytrach na lluniau) yn cyfoethogi'r dysgu ac yn debygol o wneud y disgyblion gofio yn well.

Nodwyd bod y Pennaeth wedi penderfynu cyflogi athrawes sydd â phrofiad helaeth o ddysgu a chydlynu Addysg Grefyddol a nodwyd bod hyn yn gryfder.

iii) Ysgol Borth-y-gest

Nodwyd mai un o gryfderau'r ysgol uchod yn ystod yr adolygiad oedd gwaith i gyfoethogi profiad plant drwy gyfuniad o waith da ar ac oddi ar y safle drwy ymweliadau amrywiol a gweithgareddau allgyrsiol.

Ymhellach, 'roedd y Pennaeth yn mynegi awydd i chwilio am gyfleoedd i addysgu Addysg Grefyddol yn drawsgwricwlaidd.

Nododd aelod bod sawl peth yn yr hunan arfarniad yn haeddu canmoliaeth uchel a bod y Pennaeth wedi bod yn ddiymhongar wrth roi 'da' yn hytrach na 'rhagorol.'

iv) Ysgol Felinwnda

Ysgol  wledig iawn yw'r ysgol uchod gyda thua dau ddwsin o ddisgyblion yn ei mynychu. Nododd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG bod y Prif Arolygydd wedi nodi bod agweddau lles yn gryfder yn yr ysgol.

O safbwynt Cwestiwn Allweddol 1, nodwyd bod canlyniadau holiaduron yn dangos bod plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod bod yna rywun i wrando ar eu problemau. Nododd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG bod hyn yn adlewyrchiad o'r awyrgylch gartrefol oedd yn bodoli yn yr ysgol.

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau at y ffaith bod y plant yn ymgyrraedd tuag at lefel 4 a 5 yn y maes Addysg Grefyddol erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 gyda gweddill y dosbarth yn gweithio ar lefelau sy'n cyd-fynd â'u datblygiad personol.

v) Ysgol Llandygai

Ysgol Eglwys yw'r ysgol uchod a chyfeiriwyd at yr hunan arfarniad trylwyr iawn. Nodwyd bod cyd addoli yn cael cryn sylw yn yr ysgol.

Nododd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod safonau da yn yr ysgol ond bod ymdrechion cyson yn cael eu gwneud yno i sicrhau gwelliant. Ychwanegodd bod enghreifftiau o waith o'r ysgol wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol ar lefel cenedlaethol fel canllawiau Addysg Grefyddol Cyfnod Allweddol 2 y Llywodraeth.

Dywedodd cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru bod gwaith yn cael ei wneud yn yr ysgol er mwyn darganfod os yw mynychu Ysgol Eglwys yn cael effaith cadarnhaol neu negyddol ar addysg y disgyblion.

Eisoes sefydlodd yr ysgol gysylltiad gyda Chanolfan y Santes Fair yn Abergwyngregyn sy'n arbenigo yn y maes yma.  Yn sgil hyn, gwnaed rhai newidiadau yn yr ysgol ac yna dechreuwyd astudio effeithiau'r newidiadau yma.

Mynegodd yr aelod barodrwydd i roi cyflwyniad ar gefndir a gwaith Ysgolion Eglwys pe byddai ei gyd-aelodau'n dymuno.

` vi) Ysgol Foelgron

Nodwyd bod yr ysgol yn trefnu ymweliadau addysgol, sy'n cyfoethogi  gwaith y disgyblion, nid yn unig i addoldai lleol ond hefyd i Ynys Enlli.

Ychwanegwyd bod yr elfen o gydweithio gydag ysgol arall yn elfen amlwg yn yr ysgol yma. Maent yn cydweithio hefo Ysgol Llanystumdwy, sydd hefyd yn Ysgol Eglwys. Mae'r cydweithrediad yma'n rhoi cyfle i'r athrawon Cyfnod Sylfaen i drafod amrywiol faterion gyda'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol.
Nododd y Cadeirydd, bod cryn bellter rhwng y ddwy ysgol a'i bod yn braf bod y cydweithrediad yn bodoli.

O safbwynt addoli ar y cyd, nodwyd bod awyrgylch ac ethos arbennig yn cael ei gynnal yn ystod gwasanaethau. Tynnwyd sylw penodol at y ffaith mai'r plant hynaf sy'n gyfrifol am hyn drwy chwarae cerddoriaeth addas i fynd i mewn ac allan o'r neuadd, estyn adnoddau perthnasol ac wynebu ffenestr liw perthnasol a silff ffenestr gyda chroes, cannwyll a symbolau crefyddol eraill.

Nodwyd bod peth o waith yr ysgol wedi cael ei ddefnyddio yn y rhifynnau diweddaraf o Syniadau Addysg Grefyddol.

Cyfeiriwyd at y gwaith a wneir mewn ysgolion gan Gyfeillion Coleg y Bala.

vii) Ysgol Tudweiliog

Cyfeiriwyd at y sylwadau a wnaed yn adroddiad arolygiad Estyn, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2012, bod y disgyblion yn ‘gwrtais ac yn dangos parch a gofal at oedolion ac at eu cyfoedion.’

O safbwynt Cwestiwn Allweddol 2, nodwyd bod yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol.

**PENDERFYNWYD:**
**a) Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol, anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**
**b) Bod cyflwyniad yn cael ei roi gan y Parch Robert Townsend, (cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru), mewn cyfarfod o'r pwyllgor hwn yn y dyfodol, ar gefndir a gwaith Ysgolion Eglwys**

## 6. YMATEB AC ARWEINIAD CYSAG

**6a.** Cyflwynwyd adroddiad gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn nodi bod ei thymor yn y swydd gyda ‘Cynnal’ yn dod i ben ar 31 Mawrth, 2013. Yn sgil y newidiadau bydd yn gweithio fel rhan o wasanaeth newydd ar draws gogledd Cymru. Er hyn, nid oedd yn rhagweld y bydd y cysylltiad rhyngddi a CYSAG Gwynedd yn cael ei dorri yn gyfan gwbl er y bydd yn cyflwyno gwybodaeth wahanol am safonau Addysg Grefyddol yn yr ysgolion.

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau at amrywiol gyrsiau a gynhaliwyd yn ddiweddar a thynnodd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- bod Addysg Grefyddol wedi cael sylw mewn cwrs a gynhaliwyd ar gyfer y sector gynradd cyn y Nadolig;
- bod cwrs dwys pum niwrnod ar y Dyniaethau a drefnwyd ar gyfer criw bychan o athrawon cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn dirwyn i ben;
- heddwch oedd thema'r cwrs uchod, a defnyddiwyd peth o'r hyn a welwyd mewn hunan arfarniad rhai ysgolion fel rhan o'r gwaith Addysg Grefyddol.
- bydd y rhai sy'n mynychu'r cwrs yn paratoi aseiniad ar y Dyniaethau cyn rhannu gwaith ei gilydd;
- bod cyrsiau wedi eu cynnal ar gyfer athrawon ysgolion uwchradd sy'n addysgu cyrsiau TGAU gydag arweiniad yn cael ei roi gan arholwyr TGAU;
- bod sesiwn wedi ei gynnal ar gyfer athrawon ysgolion uwchradd pryd y rhoddwyd sylw penodol i safonau'r pwnc a'r cyfleoedd sydd ar gyfer cyrraedd lefel llythrennedd cadarn;
- bod cwrs, dan yr enw ‘Darllen Data’, wedi ei gynnal i'r rhai sy'n addysgu'r Dyniaethau yn y Sector Uwchradd. Fel rhan o'r cwrs, defnyddiwyd unrhyw beth oedd yn ymwneud â rhif fel ffynhonnell anghrefyddol o fewn cyd-destun Addysg Grefyddol.

**6b** Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau at yr HMS a gynhaliwyd gan Gymdeithas CYSAGau Cymru ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 3.

Ymhelaethodd ar gyfres o sesiynau hyfforddi a drefnwyd gan Gymdeithas CYSAGau Cymru. Talwyd ffioedd y darparwyr gan Gymdeithas CYSAGau Cymru, a chafwyd cefnogaeth ariannol bellach gan Awdurdodau Lleol mewn perthyna â threfnu lleoliad ar

gyfer yr hyfforddiant a darparu lluniaeth. Diolchodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau am y gefnogaeth a gafwyd.

Trwy gyflwyniad 'power point' adroddodd yn llawn ar werth yr hyfforddiant gan roddi sylw penodol i'r trafodaethau a gynhaliwyd parthed yr ymateb i adroddiad Prif Gymedrolwr Asesiadau Athrawon ac awydd athrawon roi ystyriaeth i'r tasgau sy'n cael eu gosod. Ymhellach 'roedd yr athrawon wedi cael cyfle i drafod cwestiynau sylfaenol a heriol allai fod yn rhan o wersi Addysg Grefyddol. Yn ogystal, rhoddwyd sylw i'r gwahaniaeth rhwng y cwestiynau eithaf yma a chwestiynau crefyddol. Ymhellach rhoddwyd sylw i gwestiynau yn ymwneud â'r cyflwr dynol.

Cadarnhawyd bod ymateb ysgolion Gwynedd wedi bod yn gadarnhaol iawn gyda'r presenoldeb yn galonogol.

**6c.** Rhoddwyd sylw i'r goblygiadau diwedd gwasanaeth ymgynghorol CYNNAL a sut y gall CYSAG gyflawni ei ddyletswyddau yn y dyfodol.

Cyfeiriwyd at ddyletswyddau'r gwasanaeth newydd ond nodwyd na dderbyniwyd swydd ddisgrifiadau llawn hyd yma.
O ran CYSAG Gwynedd, mynegwyd peth pryder gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau o safbwynt dulliau a ellid eu defnyddio er mwyn monitro safonau Addysg Grefyddol mewn ysgolion.

Yn sgil y newidiadau, cyfeiriodd y Cadeirydd at waith neilltuol yr Ymgynghorydd Dyniaethau gydol y blynyddoedd. Ychwanegodd ei bod yn edmygu ac yn gwerthfawrogi'r arweiniad a gafwyd ganddi.

Pwysleisiodd ymhellach bod gwerth neilltuol i'r gefnogaeth a gafwyd ac nid oedd am weld hyn yn lleihau.

Ategwyd y gwerthfawrogiad gan sawl aelod a mynegwyd pryder y bydd y newidiadau'n golygu y bydd y ddarpariaeth yn llawer tlotach. Dymunwyd yn dda i'r Ymgynghorydd Dyniaethau yn ei swydd newydd.

## 7. AROLWG CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU o GYSAGAU Cymru – Mehefin 2012

a) Cyflwynwyd adroddiad ar arolwg Cymdeithas CYSAGau Cymru o GYSAGau yng Nghymru.

b) Esboniwyd bod yr argymhellion i GYSAGau yng Nghymru yn rhoi sylw penodol i gynrychiolaeth. Golygai hyn y gellid ystyried a oedd y gynrychiolaeth ar CYSAG Gwynedd yn dderbyniol ac oedd angen ystyried unrhyw newid.

c) Nododd un o'r aelodau cyfetholedig, bod llawer o'r adroddiad yn llai perthnasol i Wynedd a Môn nag i ardaloedd eraill yng Nghymru oherwydd natur y gymdeithas. 'Roedd peth amheuon ganddo felly a oedd gwerth mewn penodi gweithgor i gyflwyno adborth i'r CYSAG ar oblygiadau'r adroddiad.

ch) Mewn ymateb, dywedodd cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru nad oedd am weld yr adroddiad yn cael ei diystyru.

d) Ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd, disgynnodd cynnig i benodi gweithgor i gyflwyno adborth i'r CYSAG ar oblygiadau'r adroddiad.

dd) Cyflwynwyd gwybodaeth parthed argymhellion a wnaed i Gymdeithas CYSAGau Cymru a chytunwyd y gellid rhoi ystyriaeth i'r amrywiol faterion drwy eu cynnwys ar raglen cyfarfodydd CYSAG Gwynedd.

**9. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU**

a) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd, 2012 ym Merthyr Tudful.

b) Nododd yr Ymgynghorydd Dyniaethau fod Addysg Grefyddol yn y Sector Uwch wedi cael cryn sylw yn y cyfarfod.

c) Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd mai cofnodion drafft oedd y rhain, ac y byddant yn cael eu darparu'n ddwyieithog wedi iddynt gael eu cymeradwyo.

ch) Cadarnhawyd y caiff cyfarfod y Gymdeithas ei gynnal yng Nghaernarfon ar 19 Mehefin, 2013 a galwyd am gefnogaeth frwd i'r achlysur.

d) Cyfeiriwyd at waith cynrychiolydd CYSAG Gwynedd, Mr Wyn Myles Meredith a'i barodrwydd i fynychu cyfarfodydd y Gymdeithas yn rheolaidd.

**PENDERFYNWYD :**
**a) Derbyn y wybodaeth**
**b) Enwebu Mr Wyn Myles Meredith, (yn ei absenoldeb) a'r Cynghorydd Louise Hughes i weithredu fel aelodau o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru;**
**c) Enwebu Mr Wyn Myles Meredith, (yn ei absenoldeb), i weithredu fel Is-gadeirydd Cymdeithas CYSAGau Cymru, pe byddai'n fodlon i'w enw gael ei roi ymlaen.**

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG GWYNEDD**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gopi terfynol o Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd 2011/12

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 4.00 pm

**CADEIRYDD**